



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 40 (Cy. 12)

2018 No. 40 (W. 12)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Safonau Diogelwch Sylfaenol)
(Cymru) 2018**

**The Animal Feed (Basic Safety
Standards) (Wales) Regulations
2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi yng Nghymru, mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, Erthygl 21 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer amddiffyn rhag y peryglon sy'n deillio o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom a 2003/122/Euratom (OJ Rhif L 13, 17.1.14, t. 1).

Mae rheoliad 3 yn nodi na chaiff neb ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 4 yn nodi na chaiff neb fewnforio nac allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi ei ychwanegu ato'n fwriadol wrth ei gynhyrchu.

Mae rheoliad 5 yn darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4, ac y caniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar euogfarn yn y llys ynadon drwy ddirwy neu drwy garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 3 mis, neu'r ddau ohonynt.

Mae rheoliad 6 yn nodi mai dyletswydd pob awdurdod bwyd anifeiliaid yw gorfodi'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") (O.S. 2016/387 (Cy. 121)). Mae'r diwygiad yn dynodi'r Rheoliadau hyn yn "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" at ddibenion Rheoliadau 2016 fel, ymhlith pethau eraill, y caiff swyddogion awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau gwella am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 o'r Rheoliadau hyn ac y caiff person a dramgwyddir gan benderfyniad i gyflwyno hysbysiad

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations transpose in Wales, in relation to animal feed, Article 21 of Council Directive 2013/59/Euratom laying down basic safety standards for protection against the dangers arising from exposure to ionising radiation, and repealing Directives 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom and 2003/122/Euratom (OJ No L 13, 17.1.14, p. 1).

Regulation 3 sets out that no person may intentionally add a radioactive substance in the production of animal feed.

Regulation 4 sets out that no person may import or export any animal feed to which a radioactive substance has been intentionally added during production.

Regulation 5 provides that it is an offence to fail to comply with regulation 3 or 4, punishable on conviction in the magistrates' court by a fine or imprisonment for a term not exceeding 3 months, or both.

Regulation 6 sets out that it is the duty of each feed authority to enforce these Regulations in its area.

Regulation 7 amends Schedule 1 to the Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016 ("the 2016 Regulations") (S.I. 2016/387 (W. 121)). The amendment designates these Regulations as "specified feed law" for the purposes of the 2016 Regulations so that, among other things, authorised officers may serve improvement notices for failure to comply with regulation 3 or 4 of these Regulations and a person aggrieved by a decision to serve an improvement notice may appeal to the

gwella apelio i'r llys ynadon. Mae'r diwygiad hefyd yn caniatáu, os cydymffurfir â gofynion penodol, i lys osod gorchymyn gwahardd/gorchymyn gwahardd brys ar weithredwr busnes bwyd anifeiliaid am fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4, ac mae'n caniatáu i swyddogion awdurdodedig fynd i fangre nad yw'n annedd i ymchwilio i achos o beidio â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 ac i arolygu cynhyrchion, cymryd samplau ohonynt, a'u cadw neu ymafael ynddynt. Mae'r diwygiad hefyd yn caniatáu i berson sydd wedi ei gyhuddo o fethu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4 i ddibynnu ar amddiffyniad diwydrwydd dyladwy mewn amgylchiadau penodol.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009") (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)). Mae'r diwygiad yn dynodi'r Rheoliadau hyn yn "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" at ddibenion Rheoliadau 2009. Ymhlith pethau eraill, mae'r diwygiad yn caniatáu i awdurdodau bwyd anifeiliaid rannu gydag awdurdodau bwyd anifeiliaid eraill unrhyw wybodaeth a geir ganddynt wrth iddynt orfodi'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

magistrates' court. The amendment also allows, if particular requirements are complied with, a court to impose a prohibition order/emergency prohibition order on a feed business operator for failure to comply with regulation 3 or 4, and allows authorised officers to enter non-dwellings to investigate non-compliance with regulation 3 or 4 and to inspect, take samples, and detain or seize products. The amendment also allows a person accused of failing to comply with regulation 3 or 4 to rely on a due diligence defence in specific circumstances.

Regulation 8 amends Schedule 2 to the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009 ("the 2009 Regulations") (S.I. 2009/3376 (W. 298)). The amendment designates these Regulations as "relevant feed law" for the purposes of the 2009 Regulations. Among other things, the amendment allows feed authorities to share with other feed authorities any information received by them in the enforcement of these Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2018 Rhif 40 (Cy. 12)

2018 No. 40 (W. 12)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Safonau Diogelwch Sylfaenol)
(Cymru) 2018**

**The Animal Feed (Basic Safety
Standards) (Wales) Regulations
2018**

Gwnaed 15 Ionawr 2018

Made 15 January 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 16 Ionawr 2018

Laid before the National Assembly for Wales
16 January 2018

Yn dod i rym 6 Chwefror 2018

Coming into force 6 February 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 66(1), 74A(1) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(1) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 66(1), 74A(1) and 84 of the Agriculture Act 1970(1) and section 2(2) of the European Communities Act 1972(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(3), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd(4) a mesurau mewn perthynas â

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(3), measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health(4) and measures in

(1) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mewnodsodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 84 gan O.S. 2004/3254.

(2) 1972 p. 68.

(3) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) na chynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau gwella treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora'r perfedd, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.

(4) O.S. 2008/1792.

(1) 1970 c. 40. Functions formerly exercisable by "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672, and subsequently transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Section 74A was inserted by paragraph 6 of Schedule 4 to the European Communities Act 1972 (c. 68). Section 84 was amended by S.I. 2004/3254.

(2) 1972 c. 68.

(3) S.I. 2005/1971. The functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006. The designation does not extend to measures concerning feed containing medicinal products (including growth regulators) or medicinal products when destined for use in feed except provision concerning digestibility enhancers, gut flora stabilisers, or substances which favourably affect the environment.

(4) S.I. 2008/1792.

pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(1).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (2) ac, yn achos darpariaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Chwefror 2018.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod bwyd anifeiliaid” (“*feed authority*”) yw awdurdod a nodir yn adran 67(1A) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 fel yr awdurdod sydd â'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu ddosbarth yn ôl y digwydd;

mae i “bwyd anifeiliaid” yr ystyr a roddir i “feed” yn Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

ystyr “sylwedd ymbelydrol” (“*radioactive substance*”) yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu ragor o radioniwclidau nad oes modd diystyru ei actifedd neu ei gryndiad actifedd o safbwynt amddiffyn rhag ymbelydredd.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae “mewnforio” (“*import*”) ac “allforio” (“*export*”) i gael eu dehongli yn unol â'r ystyron sydd i “importation”

relation to the common agricultural policy of the European Union(1).

There has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2) and, in the case of provisions relating to feed for non food-producing animals, of section 84(1) of the Agriculture Act 1970.

Title, application and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 6 February 2018.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“feed” (“*bwyd anifeiliaid*”) has the meaning given in Article 3 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council;

“feed authority” (“*awdurdod bwyd anifeiliaid*”) means an authority identified in section 67(1A) of the Agriculture Act 1970 as having the duty to enforce Part IV of that Act within its area or district as the case may be;

“radioactive substance” (“*sylwedd ymbelydrol*”) means any substance that contains one or more radionuclides the activity or activity concentration of which cannot be disregarded from a radiation protection point of view.

(2) For the purpose of these Regulations, “import” (“*mewnforio*”) and “export” (“*allforio*”) are to be construed in accordance with the meanings that

(1) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treulidwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perffedd.

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod darpariaethau ar gyfer rheoli gwariant sy'n ymwneud â'r gadwyn fwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, ac sy'n ymwneud ag iechyd planhigion a deunydd atgenhedlu planhigion (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t 1).

(1) S.I. 2010/2690. The designation does not extend to making provision in respect of feed that contains medicinal products destined for use in feed, except provision concerning substances that favourably affect the environment, digestibility enhancers, or gut flora stabilisers.

(2) OJ No L 31, 1.2.2002, p 1, as last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council laying down provisions for the management of expenditure relating to the food chain, animal health and animal welfare, and relating to plant health and plant reproductive material (OJ No L 189, 27.6.2014, p 1).

ac “exportation” at ddibenion Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(1).

Gwahardd arferion

3. Ni chaiff neb ychwanegu sylwedd ymbelydrol yn fwriadol wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid.

4. Ni chaiff neb fewnforio nac allforio unrhyw fwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi ei ychwanegu ato'n fwriadol wrth gynhyrchu'r bwyd anifeiliaid hwnnw.

Troseddau a chosbau

5. Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i reoliad 3 neu reoliad 4 yn euog o drosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 3 mis, neu'r ddau ohonynt.

Gorfodi

6. Dyletswydd awdurdod bwyd anifeiliaid o fewn ei ardal yw gorfodi'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016

7.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(2) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), ar ôl y cofnod ar gyfer “Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016”, mewnosoder—

“Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018”.

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

8.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(3) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol), ar ôl paragraff (dd), mewnosoder y paragraff a ganlyn—

“(e) Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018.”

“importation” and “exportation” bear for the purposes of the Customs and Excise Management Act 1979(1).

Prohibition of practices

3. No person may intentionally add a radioactive substance in the production of animal feed.

4. No person may import or export any animal feed in respect of which a radioactive substance has been intentionally added in the production of that feed.

Offences and penalties

5. Any person who contravenes regulation 3 or regulation 4 is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine or to imprisonment for a term not exceeding 3 months, or both.

Enforcement

6. It is the duty of a feed authority within its area to enforce these Regulations.

Amendment of the Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016

7.—(1) The Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016(2) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In Schedule 1 (specified feed law), after the entry for “The Animal Feed (Hygiene, Sampling etc. and Enforcement) (Wales) Regulations 2016”, insert—

“The Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018”.

Amendment of the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009

8.—(1) The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009(3) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In Schedule 2 (definition of relevant feed law), after paragraph (f), insert the following paragraph—

“(g) the Animal Feed (Basic Safety Standards) (Wales) Regulations 2018.”

(1) 1979 p. 2.

(2) O.S. 2016/387 (Cy. 121).

(3) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).

(1) 1979 c. 2.

(2) S.I. 2016/387 (W. 121).

(3) S.I. 2009/3376 (W. 298).

Vaughan Gething

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
15 Ionawr 2018

Cabinet Secretary for Health and Social Services, one
of the Welsh Ministers
15 January 2018

©[©]Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Jeff James,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 40 (Cy. 12)

2018 No. 40 (W. 12)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Safonau Diogelwch Sylfaenol)
(Cymru) 2018

The Animal Feed (Basic Safety
Standards) (Wales) Regulations
2018

£6.00

W201801151033 01/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/40>

ISBN 978-0-348-20193-2



9 780348 201932